Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad ar

Sennybridge Nursery

Sennybridge CP School
Defynnog Road
Pontsenni
Aberhonddu
Powys
LD3 8RS

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn â Sennybridge Nursery

Enw'r lleoliad	Sennybridge Nursery
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal dydd llawn
Unigolion cofrestredig neu cyfrifol	Keri Harry
Nifer y lleoedd	24
Ystod oedran y plant	3-11 oed
Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar	7
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun – Dydd Gwener 9:15 y.b. – 5.30 y.h
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Nac oes
Iaith y lleoliad	Dwyieithog
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg a diwylliannol y bobl.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC ac Estyn ar y cyd	24/09/2019
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC yn unig (os yw'n berthnasol)	24/09/2019
Dyddiad dechrau'r arolygiad	22/09/2026
Gwybodaeth ychwanegol	Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwerthusiad o ddysgu plant tair neu bedair oed nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall.

Crynodeb

Thema	Gradd
Lles a Gofal	**Da**
Addysgu, Dysgu, Chwarae a Datblygiad	**Da**
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	**Da**

Meysydd a Nodwyd ar Gyfer Gwella

Ni nodwyd unrhyw feysydd oedd angen camau gweithredu â blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r lleoliad barhau i wella

A1 Ehangu cyfleoedd i blant ddatblygu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol

A2 Sicrhau bod y polisi recriwtio diogel ar gyfer gwirfoddolwyr yn gyfredol ac effeithiol

A3 Sicrhau bod nifer priodol o ymarferwyr yn cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig llawn.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Lles a Gofal: Da

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd meithringar a gofalgar. Maent yn croesawu plant yn gynnes wrth iddynt gyrraedd, sy'n helpu bron bob plentyn i ymgartrefu'n gyflym. Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant mewn modd sensitif a pharchus ac yn mynd i lawr i lefel y plant wrth gyfathrebu â nhw. Maent yn dilyn gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol wrth ddarparu gofal personol ac yn sicrhau bod plant yn cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae gwaith y plant a ffotograffau ohonynt gyda'u teuluoedd yn cael eu harddangos yn amlwg yn y feithrinfa. Trwy hyn, mae plant yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn o fewn y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn ymateb yn dda i anghenion a diddordebau'r plant. Mae hyn yn galluogi bron bob plentyn i arwain eu chwarae a'u profiadau yn effeithiol. Maent yn gwneud dewisiadau hyderus am eu gweithgareddau dyddiol ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig ar eu cyflymder eu hunain. Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd lle mae plant yn teimlo'n hyderus i fynegi eu barn a chyfrannu syniadau. Maent yn gwrando ar y plant ac yn gwerthfawrogi eu safbwyntiau. Er enghraifft, yn dilyn adborth gan blant yn y clwb ar ôl ysgol, darparwyd tortsis i gefnogi eu dymuniad i dreulio mwy o amser yn yr awyr agored pan fydd yn tywyllu'n gynharach.

Mae ymarferwyr yn cefnogi plant i ddatblygu medrau cymdeithasol cadarn. Maent yn siarad â'r plant mewn modd tyner a phwrpasol. Maent yn defnyddio dulliau effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol, gan ganmol eu hymdrechion yn rheolaidd. O ganlyniad, mae llawer o blant yn meithrin perthnasoedd cefnogol ac yn awyddus i gynnwys eraill yn eu chwarae. Maent yn cydweithredu'n dda ac yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd. Er enghraifft, maent yn cymryd tro ac yn cydweithio'n llwyddiannus wrth lenwi tryc â phridd yn yr ardd.

Mae ymarferwyr yn adnabod plant yn dda ac yn cefnogi eu lles yn bwrpasol. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr cyn i blant ddechrau mynychu'r lleoliad ac yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol â rhieni. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i ddiwallu hoffterau, anghenion iechyd a gofynion dietegol plant yn llwyddiannus. Pan fydd angen cymorth ychwanegol, mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau clir ac effeithiol er mwyn sicrhau bod plant a'u teuluoedd yn cael mynediad amserol at gyngor a gwasanaethau perthnasol. O ganlyniad, mae anghenion unigol plant yn cael eu cefnogi'n effeithiol, gan gyfrannu'n gadarnhaol at eu lles a'u datblygiad.

Addysgu, Dysgu, Chwarae a Datblygiad: Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgysylltu'n llawn yn eu chwarae a'u dysgu mewn awyrgylch hapus a chynhwysol. Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd a phrofiadau cyfoethog a buddiol ac mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n unigolion hyderus ac annibynnol sy'n datblygu hyder i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos ac yn fuddiol gydag ymarferwyr er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn hyrwyddo rhyfeddod a pharch ymysg plant. Yn yr ardal allanol, ceir cyfleoedd diddorol i blant fwynhau chwilio yn y pridd am wahanol drychfilod. Enghraifft nodedig o hyn yw pan maent yn defnyddio chwyddwydrau er mwyn craffu'n ofalus ar wahanol drychfilod fel malwod, gwlithod a mwydod. Maent yn rhyfeddu ar yr olion gludiog lle bu'r anifeiliaid yn teithio ar hyd eu dwylo.

Ar draws yr ardaloedd dysgu a chwarae, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn effeithiol gan ddatblygu cryfder a chydbwysedd wrth deithio ar hyd offer a dringo'n annibynnol. Defnyddiant offer fel siswrn, glud a phaent er mwyn creu patrymau a phaentiadau lliwgar a gwreiddiol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson gyda phlant, ac mae hyn yn adeiladu dealltwriaeth a hyder plant i ddechrau defnyddio'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb yn dda i arweiniad cyson yr ymarferwyr, er enghraifft wrth gyfri hyd at ddeg a dal dwylo mewn cylch mawr. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio patrymau iaith cyson gyda phlant ac mae hyn yn hwyluso'r broses o ddysgu'r Gymraeg yn naturiol wrth chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau mynd at lyfrau er mwyn dweud stori, neu'n gwrando ar bypedau'n dweud stori yn ystod amser stori grŵp. Mae llawer o blant yn mwynhau creu marciau yn hyderus ar draws gwahanol ardaloedd y ddarpariaeth.

Ciplun: Dathlu creadigrwydd plant wrth iddynt greu marciau

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau creu marciau. Ar draws holl ardaloedd y ddarpariaeth, mae offer ar gael i'r plant greu nodiadau a lluniau er mwyn mynegi eu syniadau a'u creadigrwydd. Er enghraifft, ar ôl iddynt fod yn chwilio am drychfilod yng ngardd y lleoliad, roedd y plant yn awyddus i greu darluniau ac ysgrifennu am bryfaid cop roeddent wedi bod yn edrych arnynt gyda chwyddwydrau. Mae'r gwaith yn datblygu medrau modur mân y plant yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cofnodi straeon gwreiddiol mae'r plant yn eu creu ar lafar. Mae'r lleoliad yn gosod pwyslais ar ddathlu llwyddiannau'r plant, ac mae dathlu straeon plant yn rhan fawr o hyn. Mae'r gwaith yn hyrwyddo pleser mewn darllen ac yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar plant yn llwyddiannus.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth amrywiol sydd ar gael iddynt, mae medrau mathemategol a medrau digidol llawer o blant yn datblygu'n dda. Mae ymarferwyr yn addysgu medrau yn

uniongyrchol, sy'n adeiladu hyder plant i fynd at adnoddau'n annibynnol wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn edrych gyda'r plentyn ar y digidau'n newid po fwyaf o ffrwythau toes sy'n cael eu gosod ar y glorian ddigidol.

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut mae plant yn dysgu a datblygu. Maent yn darparu adnoddau, teganau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r dysgu yn effeithiol. Maent yn cyd-chwarae ochr yn ochr â phlant gan annog a holi yn fedrus. Maent yn monitro a gwerthuso cynnydd plant yn effeithiol gan gydweithio'n dda fel tîm ac ymateb yn fuddiol i anghenion plant unigol. Mae ganddynt adnabyddiaeth gadarn o ddiddordebau a chryfderau plant. Maent yn addasu'r adnoddau a'u dulliau addysgu er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn derbyn cefnogaeth ac yn cael ei herio i ymestyn i ddatblygu ei wahanol fedrau.

Mae arweinwyr wedi sefydlu systemau buddiol i gofnodi cynnydd plant yn eu gwahanol fedrau. Mae'r ymarferwyr yn cadw nodiadau cryno er mwyn creu cofnod o gynnydd arwyddocaol. Mae hyn yn caniatáu i'r holl dim fod yn ymwybodol o gynnydd gwahanol blant a'r modd mwyaf effeithiol i'w cefnogi gyda'u medrau. Er enghraifft, maent yn defnyddio iaith fwy datblygedig gyda phlentyn mwy hyderus tra'n canolbwyntio ar ddefnyddio geirfa graidd gydag phlentyn arall.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn briodol. Rhoddir sylw da i wahaniaethau o fewn teuluoedd a dathlu amrywiaeth. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth plant o ddiwylliannau gwahanol wedi ei datblygu'n llawn hyd yma. Ceir cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am eu hardal ac am Gymru. Mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus â'r ysgol leol gan gymryd rhan mewn digwyddiadau a dathliadau. Mae cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau fel Dydd Miwsig Cymru, a digwyddiadau cymunedol. Gwahoddir aelodau o'r gymuned fel yr heddlu i ddod i'r cylch er mwyn i blant fwynhau dysgu am bobl sy'n eu helpu nhw.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr y cylch weledigaeth glir a chadarn ar gyfer y ddarpariaeth. Maent yn gosod disgwyliadau pendant a heriol ar gyfer ymarferwyr, sy'n cydweithio'n gydwybodol er lles plant. Mae eu gweledigaeth wedi ei seilio ar sicrhau darpariaeth o safon uchel, lle mae'r Gymraeg yn greiddiol i'w holl waith. Maent yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod plant yn eu gofal yn hapus, yn hyderus ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau. Mae'r datganiad o ddiben yn ddogfen gynhwysfawr sy'n rhoi amlinelliad clir o waith y ddarpariaeth.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau trwyadl ar gyfer gwerthuso'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys cywain barn rhieni a gofalwyr, ymarferwyr, a'r plant eu hunain. Maent

yn rhoi ystyriaeth lawn i arweiniad a dderbynnir gan bartneriaid fel swyddogion yr awdurdod lleol, ynghyd â phrofiadau datblygiad proffesiynol fel ymweliadau â darpariaethau cyfagos. Maent yn gwerthuso effaith eu gwaith ar brofiadau dysgu a lles plant.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n fuddiol ag amrediad da o bartneriaid. Mae ganddynt berthynas agos ac adeiladol â rhieni a gofalwyr plant. Mae hyn yn cael ei amlygu trwy'r cyswllt rheolaidd sydd rhyngddynt a'r cartref. Mae arweinwyr yn ymgysylltu'n barhaus ag amrediad o adrannau o fewn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer plant, fel eu bod yn magu hyder a gwneud cynnydd yn eu medrau.

Mae arweinwyr yn gwirio addasrwydd ymarferwyr, gan sicrhau bod ganddynt y medrau, y profiad a'r cymwysterau priodol i gyflawni eu rolau. Fodd bynnag, nid ydynt yn adolygu'r polisi gwirfoddolwyr yn rheolaidd nac yn sicrhau bod pob gwirfoddolwr wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Yn gyffredinol, maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gyson. Mae arweinwyr yn cynnal cyfathrebu effeithiol ac yn darparu cymorth ac arweiniad priodol sy'n cefnogi lles a datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr. O ganlyniad, mae ymarferwyr medrus a brwdfrydig yn darparu profiadau gofal a dysgu effeithiol i blant. Er bod ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod y nifer gofynnol o ymarferwyr yn y clwb ar ôl ysgol wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf pediatrig llawn.

Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu cryf ac yn sicrhau bod ymarferwyr wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn deall eu cyfrifoldebau diogelu. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn hyderus wrth weithredu gweithdrefnau diogelu, gan helpu i gadw plant yn ddiogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel, glân ac addas drwy weithredu prosesau cadarn i reoli risgiau. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r adeilad a'r ardal awyr agored ac yn darparu adnoddau o ansawdd da i blant. O ganlyniad, mae plant yn chwarae, dysgu a datblygu eu hannibyniaeth mewn amgylchedd diogel a chefnogol.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau
Gwael	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2026